Yn ôl nodyn mewn pensil yng nghopi'r Llyfrgell Genedlaethol, llun o Gynddelw sy'n cael ei gynnig fel enghraifft o 'Londer' a Gweirydd ap Rhys sy'n nodweddu 'Trefn'. Ni wnaed ymgais i adnabod y cymeriadau a ddewiswyd fel enghreifftiau o'r cynheddfau llai dymunol.

* * * *

ERBYN diwedd y ganrif roedd ffrenoleg wedi hen golli ei apêl ymhlith arweinyddion cymdeithas a'r dosbarth canol ond cadwodd ei boblogrwydd ymhlith y werin.

Dyma'r cyfnod pan gyhoeddwyd y gweithiau mwyaf sylweddol yn Gymraeg, sef: *'Llaw-lyfr newydd ar Phrenyddiaeth, Iechyd a bywyd'*, gan T. H. Arthur (dwy gyfrol), a gyhoeddwyd gan yr awdur ym Mhontypridd yn 1892, a *'Pwyllwyddeg: y wyddiant pwyllwyddeg wedi ei hegluro yn syml, yn nghyd a chyfarwyddyd ar iechyd, dewis galwedigaeth, etc.'*, gan W. A. Williams a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1897.

Rhaid cydnabod yr ymdrech deg a wnaed i fathu termau Cymraeg ar y gwahanol ermigau, er nad oes unrhyw gysondeb termau rhwng y gwahanol awduron, e.e. rhydd Arthur Cuddgarwch am *Secretiveness* a Chymeradwyaethgarwch am *Approbativeness*. Termau Williams sy'n cyfateb i'r rhain yw Celedigedd a Chymeradwyedd.

Mae'n wir fod rhai o'r termau Cymraeg braidd yn lletchwith ond, o ran hynny, rhaid mynd yn o bell i ffeindio gair mwy trwsgl na *Philoprogenitiveness*!


Ar ddiwedd llyfr Arthur ceir cyfarwyddyd pwysig ar 'sut i ddewis Cydmar Bywyd, neu caru, priodi a byw'. Medd yr awdur:

> *'. . . Pe byddai pobl ieuainc yn cymeryd Phrenyddiaeth yn arweinydd iddynt yn flaenorol i'w mynediad i'r ystâd briodasol, ni fyddai cymaint o sôn am Fethiantau Priodasol, oblegyd mae y wyddor hon yn nodi allan yn eglur pwy* sydd *a phwy* Na *sydd yn gyfaddas i'w gilydd fel gwr a gwraig.'*

Mae'n gwahodd parau ifanc i ddanfon ffotograffau iddo os nad oedd modd iddynt gael 'arholiad manwl o'r ddau gan y Prenyddwr'.

Mae Arthur yn ymffrostio mai ef, yn ôl rhyw James Coats, Golygydd y *Register of Phrenological Practitioners*, oedd *'the only educated Bilingual Phrenologist in Wales'*. Serch hynny, mae'n amlwg nad oedd yn dibynnu'n gyfan gwbl ar ffrenoleg am ei fywoliaeth.

Ceir ganddo hysbyseb am *'Arthur's Medical Curative Battery'*, sef y *'New Medico-Electric Battery (Life Investigator), made specially to our order'* sy'n wyrthiol ar gyfer pob math o wendid, ynghyd â llu o anhwylderau eraill, fel y tystia



DARLUN I.

| | | |
|---|---|---|
| 1. Sercholedd | 13. Hunan-barch | 26. Maint |
| *a.* Cydieucledd | 14. Cadernid | 27. Pwys |
| 2. Cariad Rhiantol neu Ri-hoffedd. | 15. Cydwybodolrwydd | 28. Lliw |
| 3. Cyfeillgarwch. | 16. Gobaith | 29. Trefn |
| 4. Trigoledd | 17. Ysprydolrwydd | 30. Cyfrifiad |
| 5. Parhad | 18. Parch | 31. Lleoldeb |
| *c.* Bywioledd | 19. Ewyllys da | 32. Dygwyddoledd |
| 6. Ymdrecholedd | 20. Cydosodoledd | 33. Amser |
| 7. Distrywioledd | 21. Dychymygoledd | 34. Tôn |
| 8. Meithrinolaeth | *b* Arucheledd | 35. Iaith |
| 9. Ennilloledd | 22. Efelychiad | 36. Achosoledd |
| 10. Celedigedd | 23. Llawenydd | 37. Cydmariaeth |
| 11. Gochelgarwch | 24. Unigoledd | *c* Natur Ddynol |
| 12. Cymeradwyedd | 25. Ffurf | *d* Dymunoledd |

nifer o bobl o Forgannwg a gafodd wellhad rhyfeddol, diolch i beiriant trydanol Mr Arthur.

* * * *

YN Y cyfrolau hyn ceir tabl neu 'Bwyllgraff o gymeriad, dadblygiad anianyddol, a chyflwr presenol' ar gyfer yr unigolyn a brynodd y llyfr. Mewn geiriau eraill, roedd y ffrenyddwr yn gwneud ei asesiad ac yn ei groniclo yn y llyfr fel cofnod parhaol, a fyddai wedyn yn cael ei gyflwyno i'r gwrthrych.

Mae'n siŵr fod hon yn ffordd effeithiol o werthu'ch llyfr yn ogystal â bod yn fodd i danlinellu'r neges mor bell ag oedd y prynwr yn y cwestiwn.

Yn fy nghopi i o waith Williams ceir 'Pwyllgraff' rhyw David Harris 'fel y rhoddwyd hwynt gan W. A. Williams, F.N.P.I., Awst 1911, Abertawe'. Ceir tablau sy'n nodi'r gwahanol gynheddfau a berthynai iddo ac yna, ar ddiwedd y llyfr ceir dyfarniad, sef 'crynodeb byr o gymeriad Mr David Harris'. Dyma ddyfarniad Williams (yn Saesneg) arno:

> *'You have a cast of mind which needs cultivating and directing into other channels than coalmining. I think that with a good education you can be happier in the following pursuits, 1. You will excel in Book Keeping, Secreterial Work, Bookselling, etc., 2. You can succeed in Religious work especially that side having to do with social life . . .'*

ac yn y blaen.

Tybed a lwyddodd David Harris i ddianc rhag y lofa a beth ddaeth ohono wedyn, druan?

Mae'n anodd credu mor ddylanwadol oedd y ffug-wyddor hon ganrif a hanner yn ôl ac, yn wir, mae'n amlwg na phallodd y diddordeb hyd at ddechrau'r ganrif hon. Mae'r cyfan erbyn hyn yn ymddangos mor druenus o ddiniwed ac o hygoelus.

Serch hynny, cyhoeddwyd llyfr Saesneg ar y pwnc (*Heads, or the art of Phrenology*) o waith Helen a Peter Cooper, gan y London Phrenology Company Ltd, mor ddiweddar â 1983.

Pwy a ŵyr efallai y daw ffrenyddiaeth yn boblogaidd unwaith eto, ac os felly, tybed a fydd yn talu'n well na Seiciatreg?

## COFIO MEN

YN Y *Tyst*, Awst 29, 1991, rhydd y Parchedig Iorwerth Jones grynodeb o'r erthygl ar Men, Eifion Wyn a ymddangosodd yn rhifyn Awst o'r *Casglwr*.

Yr oedd Mary Elizabeth a'i phriod, y Parchedig William Roberts, yn wybyddus iddo oherwydd fe'i bedyddiwyd gan yr olaf yn eglwys Trinity Road, Bootle, ac yn ôl a ddeallodd gan ei fam, gwraig y gweinidog a fynnodd ar Iorwerth yn hytrach nag Edward fel ei enw bedydd.

Cynhwysa ei atgofion o'r ddau yn ei gyfrol ddifyr *Dyddiau Lobscows yn Lerpwl* a gyhoeddwyd gan Wasg John Penry yn 1988. Diolch iddo hefyd am ei ganmoliaeth hael i'r *Casglwr*.

# Daeargwn



*John Owen Jones a "Jimi"*

MAE'R diddordeb yn y Daeargi Cymreig ar gynnydd enfawr, nid yn unig yng Nghymru a Phrydain ond yn Ewrop hefyd. Nid yn unig mae yna glwb i'r brîd ond cymdeithas hefyd, ynghyd â llawlyfrau goludog gan y naill sefydliad a'r llall — er nad yw'r gymdeithas, oherwydd costau, am gyhoeddi llawlyfr am eleni.

Edrych tros f'ysgwydd 'roeddwn er fy ngwaethaf yn y Sioe gŵn olaf i'r Daeargi Cymreig am 1991.

Yno, ym mherfeddion Lloegr, deuai acenion gwladwr o Lanwenog, ger Llanybydder, fel miwsig i'm clustiau, ac mi fyddai safiadau, llun a lliw ei ddaeargwn yn sodro sylw bob gafael. John Owen Jones, Cenals Gwenog, oedd y boneddwr a'n gadawodd ni, ysywaeth, gyda chwympiad y dail eleni.

* * * *

YM MAI y gwelais o dd'wetha. Ddaeth o ddim at lidiart y ffordd fawr yn ôl ei arfer, ac o'i gadair y bu'r ffarwél Haf y diwrnod hwnnw.

Rhyw gyfarfyddiad ysbeidiol fyddai'r hanes, ac am gŵn a phobol y cŵn y byddai'r sgwrsio. Orig rhy fer fu honno yn sioe fwya'r byd yn Crufts pan dynnwyd y llun ohono fo a 'Jimi', pan enillodd bencampwriaeth. Cyflawnodd yr un gamp y flwyddyn ddilynol. Ond fel Cymro beth am drydydd tro? Ond, na, oherwydd gwaeledd gorfu i'r meistr sefyll yn ôl, a gadael i 'Jimi' ymddangos gyda chyfeillion ar y funud ola'.

Ond daliodd Jimi at enw da ei feistr a thorri record yn hanes yr holl ddaeargwn Cymreig er eu dangos dros gan mlynedd yn ôl, sef ennill pencampwriaeth deirgwaith yn olynol yn Crufts.

Wrth gloi, rhaid cyfeirio at ei briod annwyl Musus Lisa Jones. 'Roedd hi'n llenwi'r bartneriaeth i'r ymylon bob tro. Ac i gapel gorlawn Brynteg daeth cyfeillion o bell ac agos i dalu'r gymwynas olaf ac i goffáu eilun cymdogaeth eang. Ac fel y rhed yr wyres ifanc i 'Jimi' ar draws yr ardd a sefyll yn stond i edrych ym myw fy llygaid, felly hefyd y daw sawl atgof hapus am John Owen.

I.M.E.